

Masnach ryngwladol: Cynllun Compartmentau ar gyfer cwmnïau magu dofednod

Canllawiau'r Cynllun

Beth yw cynllun compartmentau?

Cynllun ydyw sy'n agored i gwmnïau magu dofednod ym Mhrydain Fawr. Mae cael cymeradwyaeth fel compartment yn seiliedig ar y protocolau rheoli, systemau bioddiogelwch ac arferion hwsmonaeth ar safle penodol. Os yw gwledydd sy'n mewnfario yn derbyn compartmentau, gallai statws compartment roi cwmni mewn safle cryfach o ran ailddechrau allfario yn dilyn achosion o Ffliw Adar ym Mhrydain Fawr.

Mae rhestr o gompartmentau cymeradwy ym Mhrydain Fawr ar gael [yma](#). [*link to AH maintained spreadsheet list*]

Pwy sy'n rheoli'r cynllun?

Rheolir y cynllun gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Caiff safle ymgeisydd ei arolygu gan staff o'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol (yr Asiantaeth). Gweithredir y gweithdrefnau gweinyddu gan yr Asiantaeth, Iechyd Anifeiliaid (IA - yr asiantaeth sy'n darparu gwasanaeth maes milfeddygol i Brydain Fawr) a'r Gweinyddiaethau Datganoledig lle y bo'n berthnasol.

Caiff trefniadau gwahanol eu rhoi ar waith yng Ngogledd Iwerddon. [<http://www.dardni.gov.uk>].

Pwy all fod yn gompartment?

Mae'r cynllun ar agor i unrhyw gwmni magu dofednod sydd â'i bencadlys ym Mhrydain Fawr. Rhaid i bob safle sydd i'w gynnwys yn y compartment fod wedi'i leoli ym Mhrydain Fawr, ac o dan reolaeth lawn y Cwmni. Dim ond pan nad oes cyfyngiadau o ran ffliw adar yn y wlad y gellir rhoi cymeradwyaeth gychwynnol i gompartmentau yn unol â deddfwriaeth yr UE.

Opsiynau'r cynllun

Gall cwmnïau wneud cais am gymeradwyaeth yn unol â dwy safon wahanol. Bydd Safon yr UE yn gweithredu amodau yn Rheoliad 616/2009 Comisiwn yr UE, sy'n dod i rym o 1 Hydref 2009. Bydd yr opsiwn hwn felly ar gael o 1 Hydref 2009 ymlaen. Mae Safon Well Prydain Fawr ar gael nawr. Mae'n ymgorffori holl ofynion Safon yr UE, gyda chyfarwyddiadau penodol ychwanegol. Felly bydd pob compartment sydd wedi'i gymeradwyo i Safon Well Prydain Fawr yn gymeradwy i Safon yr UE yn awtomatig tra ond yn talu'r ffi am gymeradwyaeth Safon Well Prydain Fawr.

Mae Safon Well Prydain Fawr yn cynnwys Clefyd Newcastle yn ogystal â Ffliw Adar. Mae Safon yr UE ond yn cynnwys Ffliw Adar.

Gall Cwmni ddewis cael nifer o safleoedd unigol wedi eu cymeradwyo fel compartmentau ar wahân, neu gael nifer o safleoedd sydd ar wahân ond sy'n gysylltiedig o ran gweithredu eu cymeradwyo gyda'i gilydd fel un compartment. Mae'r dewis hwn yn ôl disgrisiwn y Cwmni.

Mae'r rheolau ar gyfer Safon yr UE a Safon Well Prydain Fawr ar gael [yma](#). [*link to pdfs Summary of Rules and Protocol requirement papers*]. Dangosir amodau Safon Well Prydain Fawr mewn print trwm yng ngofynion y Protocol.

Sut i ddod yn gompartment

Dylai cwmnïau sydd am wneud cais am gymeradwyaeth gyflwyno [ffurflen gais](#) [*link to application form*] i'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol (yr Asiantaeth) yn:

Compartment Applications, Veterinary Laboratories Agency, Merrythought, Calthwaite, Penrith, Cumbria CA11 9RR.

Mae'r ffurflenni cais ar gael yn y ddolen uchod a dylid eu hargraffu a'u hanfon fel copi caled.

Rhaid i bob cais atodi'r dogfennau canlynol ar gyfer pob safle:

Gwybodaeth am y compartment cyfan:

- Ffurflen gais a lofnodwyd gan aelod cyfrifol o'r cwmni.
- Organogram sy'n dangos pob un o safleoedd arfaethedig y compartment, yn dangos eu swyddogaeth a llif y cynnyrch rhyngddynt, a'r prif fewnbynnau ac allbynnau o'r tu allan i gylch y compartment.
- Cynllun bioddiogelwch cyffredinol y cwmni

A gwybodaeth am bob safle compartment unigol:

- Cyfeiriad a manylion cyswllt ar gyfer y safle.
- Cynllun o'r safle yn dangos llinellau ffrwd y cynnyrch a'r personél.
- Dadansoddiad HACCP ar gyfer y safle.
- Cofnodion o'r profion fflw adar a gynhaliwyd ar y safle a gofynion gwyliadwriaeth eraill am y chwe mis cyn cyflwyno'r cais fel y nodir yng Nghwestiwn 8 o'r ffurflen gais.

Bydd yr Asiantaeth yn gyfrifol am asesu protocolau rheoli'r Cwmni, ac am gynnal arolygiadau o safle pob un safle compartment unigol.

Ffioedd

Bydd yr Asiantaeth yn rhoi anfoneb i'r Cwmni am y ffioedd arolygu ar ôl cwblhau'r arolygiad. Rhaid talu'r ffi'n llawn waeth a yw'r canlyniad yn argymhelliad am gymeradwyaeth, yn gymeradwyaeth sy'n amodol ar gymryd camau adferol, neu'n benderfyniad i beidio â rhoi cymeradwyaeth. Os bydd angen arolygiad pellach, bydd rhaid talu ffi bellach fel arfer.

Yr un fydd y ffioedd ar gyfer Safon yr UE neu Safon Well Prydain Fawr. Y ffioedd ar gyfer y flwyddyn 2009 - 2010 yw:

Tâl am ymweld â'r pencadlys.	£1400 + TAW
Tâl am ymweliad ychwanegol â'r Pencadlys fesul diwrnod ychwanegol sydd ei angen*.	£1000 + TAW
Tâl am ymweld â safle fesul safle. Cais cychwynnol neu ailarylygiad (i'w weithredu pan fydd y cwmni dofednod yn caniatáu dim ond un ymweliad bob dydd).	£1000 + TAW
Tâl am ymweld â safle fesul safle. Ceisiadau cychwynnol neu ailarylygiad (i'w weithredu pan fydd y cwmni dofednod yn caniatáu dim ond dau ymweliad safle bob dydd).	£500 + TAW

* Bydd y tâl ychwanegol am ymweliad â phencadlys fel arfer ond yn gymwys pan nad oes modd adolygu data nifer y safleoedd fferm sydd angen eu gwneud mewn un diwrnod.

Cymeradwyo

Pan fydd y broses arolygu wedi'i chwblhau bydd yr Asiantaeth yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i lechyd Anifeiliaid, ac anfon copi i'r Cwmni. Bydd y llythyr yn nodi p'un a yw'r cwmni'n bodloni'r gofynion ar gyfer cymeradwyo fel compartment ai peidio.

Os bydd y Cwmni'n methu â bodloni'r gofynion, caiff y rhesymau eu nodi yn y llythyr. Yr Awdurdod Cymwys sydd â'r awdurdod terfynol i gymeradwyo neu wrthod cais ac nid oes gweithdrefn apêl.

Mewn rhai achosion, gallai'r Asiantaeth gynghori'r Cwmni'n ysgrifenedig bod angen gwneud rhai gwelliannau bach cyn y gall y Cwmni fodloni'r gofynion cymeradwyo. Rhaid cwblhau'r gwelliannau hyn i foddhad yr Asiantaeth o fewn 30 diwrnod. Bydd yr Asiantaeth yna'n rhoi gwybod i lechyd Anifeiliaid bod y Cwmni'n bodloni'r gofynion cymeradwyo fel compartment heb fod angen i'r cwmni wneud cais newydd.

Pan gadarnhawyd y gymeradwyaeth bydd y Cwmni'n cael tystysgrif i gadarnhau ei statws fel compartment wedi'i gymeradwyo. Y dyddiad cymeradwyo compartment yw'r dyddiad y cyhoeddir y dystysgrif cymeradwyo compartment ar ôl i bob safle yn y compartment gael ei arolygu yn llwyddiannus. Bydd y dystysgrif yn rhestru'r safleoedd sydd wedi'u cymeradwyo mewn atodlen ynghlwm. Dim ond gan ei rif cymeradwyo safle a'i leoliad yn y sir y caiff y safle ei adnabod. Cyhoeddir y manylion hyn ar wefan gyhoeddus Defra.

Gall y Cwmni ofyn i ragor o safleoedd gael eu harolygu ar gyfer eu cymeradwyo unrhyw bryd (naill ai fel compartment unigol, neu i'w ychwanegu i'r compartment cyfunol). Yn achos compartment cyfunol, ychwanegir y safle newydd i'r rhestr o safleoedd compartment sydd eisoes yn gweithredu. Cyhoeddir atodlen newydd yn dangos y rhestr ddiwygiedig lawn o safleoedd. Fodd bynnag, dyddiad cyhoeddi'r dystysgrif wreiddiol fydd diwrnod cychwyn y compartment hwnnw yn parhau i fod.

Gall y cwmni ofyn am ddiddymu ei statws compartment cymeradwy unrhyw bryd. Gellir dileu safleoedd unigol o'r compartment, ar yr amod nad oes materion bioddiogelwch nac

epidemiologol yn y compartment ar yr adeg y caiff ei ddileu a allai effeithio ar statws cymeradwyo gweddill y compartment. Ni chaiff ffioedd eu had-dalu am unrhyw safle a gaiff ei ddiddymu neu ei ddileu.

Hyd a Chymeradwyo Ailarolygiad

Nid oes terfyn amser i gymeradwyo a bydd yn parhau'n ddilys cyhyd â bod y Cwmni'n parhau i ddilyn rheolau'r cynllun, a bod canlyniadau'r ailarolygiadau angenrheidiol yn foddhaol.

Yn dilyn cymeradwyaeth gychwynnol bydd y broses ailarolygiad yn dilyn cylch dwy flynedd a chaiff 50% o safleoedd compartment eu harolygu bob blwyddyn. Bydd y cylch ailarolygiad yn cychwyn deuddeng mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r dystysgrif wreiddiol ac yn parhau'n flynyddol wedi hynny ar ben-blwydd y dyddiad hwnnw. Gellir adolygu'r broses hon a'i haddasu unrhyw adeg.

Nid effeithir ar ddyddiad cychwyn y cylch ailarolygiad gan ddyddiad ychwanegu unrhyw safle newydd.

Cyfrifoldeb y Cwmni yw cysylltu â'r Asiantaeth bob blwyddyn ychydig cyn pen-blwydd y dyddiad cymeradwyo i ofyn am ailarolygiad o'i safle, gan ddefnyddio'r ffurflen gais [[link](#)]. Dylai'r cwmni restru'r safleoedd y dymuna iddynt gael eu hailarolygu. Dylid ailarolygu safleoedd yn y drefn y cawsant eu cymeradwyo'n wreiddiol.

Caiff statws cymeradwyo unrhyw gwmni lle na gynhaliodd ailarolygiad o bob safle mewn unrhyw gylch dwy flynedd ei atal nes y caiff ailarolygiad llawn ei gwblhau.

At hynny, mae Defra'n cadw'r hawl i ofyn am ailarolygu ychwanegol neu wahanol ar draul y cwmni os oes amgylchiadau epidemiologol neu arall yn ei gwneud yn ddoeth (e.e. newidiadau mawr i strwythur adeiladau neu weithdrefnau).

Yn ychwanegol, os oes unrhyw Drydedd Wlad yn gofyn am gynnal arolygiadau'n amlach, bydd y cwmni'n penderfynu os yw am dalu am arolygiadau ychwanegol er mwyn parhau i fasnachu â'r wlad honno.

Cynnal cymeradwyo

Rheolwr compartment y Cwmni sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff amodau'r compartment eu dilyn yn barhaus, ac yn arbennig rhaid iddo/i:

- oruchwylio a monitro y caiff holl ofynion y compartment eu cynnal,
- sicrhau y cedwir golwg ar glefydau yn unol ag Adran 5 a 6 o'r protocolau fferm heidiau (gan gynnwys gofynion ychwanegol os ceir achosion o glefyd),
- trefnu archwiliadau mewnol ac allanol rheolaidd,
- rhoi gwybod yn syth i lechyd Anifeiliaid os na chaiff unrhyw amodau eu bodloni bellach (naill ai drwy'r post i Poultry Section, Animal Health, Hadrian House, Wavell Drive, Carlisle CA1 2TB, neu drwy e-bost i LiveAnimalExports.Carlisle@animalhealth.gsi.gov.uk).

Atal Cymeradwyaeth neu ei Thynnu'n Ôl

Os daw'r Awdurdod Cymwys, yn dilyn y broses ailrolygiad, neu'n dilyn gwybodaeth gan reolwr y compartment neu drwy unrhyw ddull arall, i wybod am unrhyw newidiadau yn y strwythur neu'r gweithdrefnau ar safle cymeradwy nad ydynt yn gyson â'r statws cymeradwyo, gallai:

- atal statws cymeradwyo'r compartment ar ôl 30 diwrnod oni chafodd y broblem ei datrys erbyn hynny;
- neu atal statws cymeradwyo'r compartment yn syth, a pheidio ei adfer nes y bod y broblem yn cael ei datrys;
- neu dynnu statws cymeradwyo'n ôl o'r compartment yn syth (gallai hyn ddilyn cyfnod o atal statws, os nad yw'r cywiriadau angenrheidiol wedi eu gwneud yn ystod yr amser hwnnw.

Gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl os bydd unrhyw safle compartment yn methu arolygiad Cynllun Iechyd Dofednod neu os bydd achos o fflui adar yn y compartment.

Os caiff cymeradwyaeth ei thynnu'n ôl yn dilyn nifer cyfyngedig o safleoedd yn methu, yna gall y cwmni gyflwyno achos i'r Awdurdod Cymwys yn nodi'r cyfiawnhad dros y gwahaniaeth epidemiolegol o'r safleoedd a fethodd. Gallai'r Awdurdod Cymwys gytuno, o bosibl ar ôl rhagor o ymweliadau arolygu, ystyried tynnu'r safle o'r compartment gan ganiatáu i'r safleoedd sy'n weddill barhau fel compartment.

Os caiff y statws cymeradwyo ei dynnu'n ôl, caiff y wefan gyhoeddus ei newid yn ddi-oed. Ar ôl i gymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl, caiff unrhyw gais gan y cwmni ar gyfer ailgymeradwyo ar y safle hwnnw ei drin fel cais newydd, a bydd rhaid talu ffi bellach am hyn.

Achosion o glefydau

Os ceir achosion o glefydau, bydd rheoliadau o dan ddeddfwriaeth yr UE a'r DU yn drech na rheoliadau compartment. Yn achos allforion na chânt eu gwahardd o dan ddeddfwriaeth yr UE neu'r DU, bydd llwythi a anfonir i'r Trydydd Gwledydd hynny sy'n fodlon derbyn llwythi gan gompartmentau wedi'u cymeradwyo yn mynd â thystysgrif atodol yn tystio i statws compartment y safle gwreiddiol.

Fodd bynnag mae penderfyniadau masnachu yn ôl disgresiwn yr awdurdodau ym mhob gwlad gyrchfan yn gyfan gwbl ac ni ellir gwarantu beth fydd unrhyw wlad benodol yn derbyn ar adeg o'r fath.